

Polisi derbyn

Statws ysgol

Mae Ysgol John Bright yn 'Ysgol Uwchradd Gymunedol' fel y diffinnir o dan Atodiad 2 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998.

Ysgol John Bright is a 'Community Secondary School' as defined under Schedule 2 of the School Standards and Framework Act 1998.

Cyfrifoldeb dros dderbyniadau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd yn gyfrifol am bennu trefniadau derbyn Ysgol John Bright.

Felly, mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi 2009-10 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â derbyniadau i'w ysgolion uwchradd.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori a'r Corff Llywodraethu o ran y polisi derbyn yn flynyddol.

The Council consults annually with the Governing Body in relation to admissions.

Hanfodion y polisi

- a) Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn cydnabod yn llawn dewis rhieni yng nghyd-destun ei ddyletswyddau i sicrhau darparu addysg effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau addysgol. Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn disgwyl i ysgol gyfarfod â gofynion nad yw'n cydymffurfio â meini prawf derbyniadau. Os ystyrir bod angen ehangu ysgol yn sylweddol, caiff y cynigion eu cyhoeddi a dilynrir y drefn statudol.
- b) Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn disgyblion o'r oedran priodol (h.y. grŵp oedran yw oed disgyblion sydd fel arfer yn cael eu derbyn i ysgol a phan fo'r plentyn o'r un oed ag amrediad oed y grŵp blwyddyn) hyd at Rif Derbyn pob ysgol. Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn mwy o ddisgyblion na Rhif Derbyn yr ysgol oni ystyrir bod hyn yn hybu addysg effeithiol neu ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.
- c) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys darpariaeth arbennig yn ymwneud â derbyn plant o ddsbarthiadau babanod a chynradd. Mae'r ddarpariaeth yn gosod dyletswydd ar Gynghorau a chyrrff llywodraethu ysgolion i gyfyngu maint dosbarthiadau i 30 o blant mewn ysgolion Babanod a Chynradd. Bydd gofynion maint dosbarthiadau yn cyfyngu ar rymoedd Paneli Apelio i ganiatáu apeliadau yn erbyn derbyn plentyn i ysgol.
- d) Penderfynir Rhif Derbyn pob ysgol yn unol â'r gofynion statudol priodol.
- e) Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithredu polisi 'dalgyllch', gyda'r ddarpariaeth am le, staffio ac adnoddau eraill yr ysgol a chlodiant yn canolbwyntio ar yr ardal ble mae'r disgybl yn byw. Mae gan bob ysgol 'ddalgyllch' diffiniedig a gellir gweld mapiau swyddogol yn dangos ffiniau 'dalgyllchoedd' yn swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy neu mewn ysgolion unigol. Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn 'nalgyllch' yr ysgol os bydd mwy o geisiadau na sydd o leoedd mewn ysgol.

Y drefn derbyn

- a) Bydd y drefn derbyn flynyddol ar gyfer yr oedran perthnasol yn cynnwys y camau canlynol:
 - i. Cyhoeddi gwybodaeth am ysgolion unigol ac am Wasanaethau a darpariaeth Addysg CBS Conwy (6 Hydref 2008).
 - ii. Trefniadau i alluogi rhieni i ddatgan i ba ysgol y dymunant i'w plant fynd. (21 Tachwedd 2008)
 - iii. Ystyried dewisiadau yn ôl y meini prawf a nodwyd ym mharagraff 1.3.4 isod mewn perthynas â rhif mynediad pob ysgol. (Rhagfyr 2008)
 - iv. Anfonir llythyrau yn cynnig lle neu wrthod lle. (23 Ionawr 2009)
 - v. Mewn achosion pan na ellir caniatáu'r dewis cyntaf o ysgol, bydd trefniadau i rieni drafod y mater gydag uwch swyddogion Gwasanaethau Addysg CBS Conwy, ac os na fydd cytundeb, gellir apelio at Banel Apelio a sefydlwyd ac a gyfansoddwyd o dan ddarpariaeth Adran 94 a 95, Deddf Addysg 1998. (Gwanwyn 2009)
- b) Caiff rhieni sy'n mynegi dymuniad ar wahân i oedran arferol y derbyniadau yr un cyfle â'r rhai a amlinellir uchod. Caiff blaenoriaethau o'r fath eu hystyried yng ngoleuni polisi derbyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac argymhellion ymgynghorwyr y Cyngor. Fel arfer, ble byddai cadw at flaenoriaeth o'r fath yn golygu newid o un ysgol i un arall o'r un categori e.e. cynradd neu uwchradd, gellir gwneud y newid ar ddechrau'r tymor ysgol yn unig.
- c) Cafodd dymuniadau rhieni eu cyfarfod ym mhob ysgol yng Nghonwy yn ystod cylch derbyniadau 2006.

Meini Prawf Derbyniadau (Meini Prawf Gormod o Geisiadau)

Rhaid i Gynghorau a Chyrff Llywodraethol gydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fo rhif derbyn wedi'i gyrraedd.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cadw at ei ddyletswydd i sicrhau darpariaeth o addysg effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau. Wrth wneud hyn, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi ystyriaeth i gyfanswm yr adnoddau, gan gynnwys lle a staffio, sydd ar gael i bob ysgol ac unrhyw gyfyngiadau a roddir gan drefniadaeth a chwricwlwm yr ysgol. Bydd hefyd yn ystyried yr oblygiadau adnoddau i'r awdurdod a'r effaith ar bolisiau addysg eraill.

Isod rhestrir meini prawf Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar dderbyn i ysgolion. Maent yn dibynnu ar

- (i) Dyletswydd Cyngor Bwrdeistref Sirol i sicrhau darparu addysg effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau addysgol a
- (ii) unrhyw gyfyngiad a all godi mewn perthynas ag ysgol arbennig sy'n codi o gadw at y Rhif Derbyn.

Oherwydd hyn, wrth ystyried dewis rhieni, gellir cadw at y meini prawf os nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cytuno ar drefn blaenoriaeth wahanol gyda Chorff Llywodraethu Ysgol John Bright.

Bydd blaenoriaeth o fewn pob categori yn cael ei benderfynu gan bellter o'r ysgol a chysylltiad teuluol. Mesurir y pellter gan ddefnyddio meddalwedd System Wybodaeth Raffigol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a gydnabyddir yn genedlaethol.

Meini Prawf Gormod o Geisiadau

Mae disgyblion yn cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

Dosbarth A

Mynediad i bob ysgol – 'plant sy'n derbyn gofal' sy'n byw yn 'nalgyrch' daearyddol yr ysgol

Dosbarth B

Mynediad i ysgol uwchradd ddynodedig:

- a) Disgyblion a fynychodd yr ysgolion cynradd neu iau partner ac sy'n byw yn y 'dalgyrch' daearyddol.
- b) Disgyblion a fynychodd yr ysgol gynradd Wirfoddol Eglwysig, sydd a'i 'dalgyrch' yn cynnwys rhan o 'ddalgyrch' daearyddol yr ysgol uwchradd, ac sy'n byw yn 'nalgyrch' daearyddol yr ysgol uwchradd.

Dosbarth C

Disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol ac sy'n byw yn y 'dalgyrch' daearyddol.

Dosbarth D

Disgyblion sy'n byw yn y 'dalgyrch' daearyddol ac nid yn gymwys ar gyfer statws Dosbarth B neu C.

Dosbarth E

Disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol ac sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner ond **nad ydynt yn byw** yn y 'dalgyrch' daearyddol.

Dosbarth F

Disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd sydd yn mynychu'r ysgol ond **nad ydynt yn byw** yn y 'dalgyrch' daearyddol.

Dosbarth G

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner **ond nad ydynt yn byw** yn unrhyw 'dalgyrch' yr ysgolion partner.

Dosbarth H

Y rhai hynny sy'n byw y tu hwnt i'r 'dalgyrch' daearyddol ac **nad ydynt yn gymwys** ar gyfer statws Dosbarth E, F neu G.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn caniatáu i blant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg i fynegi eu dewis.

Mae anghenraid ar bob ysgol i gyflwyno'r Gymraeg o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol oni bai i'r ysgol ofyn am eithriad. Nid oes yr un ysgol yng Nghonwy wedi gofyn am eithriad.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sicrhau bod rhieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysg mewn ysgol enwadol yn cael cyfle i fynegi eu dewis o ysgol o'r fath.

Nid yw'r meini prawf nodwyd uchod yn berthnasol i ddisgyblion gyda datganiad o anghenion addysgol arbennig pan fo ysgol yn cael ei henwi - mae gan yr awdurdod derbyn dyletswydd i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

Derbyniadau i Ysgolion nas cynhelir gan yr AALI

- a) Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drefniadau arbennig gyda rhai Awdurdodau i ystyried ysgol mewn sir arall a ddewiswyd gan rieni.
- b) Gall rhieni sy'n dymuno ysgol a gynhelir gan Gyngor arall heblaw Conwy wneud hynny ar y ffurflen dymuniad a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy. Bydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy yn cysylltu â'r ysgolion hynny yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am dalu costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol oni bai fod trefniadau arbennig. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ceisio trefniadau arbennig gyda Chynghorau cyfagos ar gyfer disgyblion ble mae eu hysgol briodol agosaf y tu allan i ffiniau'r sir.

Derbyn Disgyblion o du allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bydd plant sy'n byw y tu allan i Conwy yn cael eu derbyn yn ôl y meini prawf a osodwyd. Dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig at Bennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) a Phennaeth yr ysgol.

Mynediad i Ysgol Uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Derbyniadau

(Mae'r drefn hon yn berthnasol i Ysgol John Bright)

- a) Fel arfer caiff disgyblion eu trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed.
- b) Bydd Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i nodi eu dewis o ysgol uwchradd ar gyfer y plentyn. Bydd pob rhiant/gwarcheidwad yn cael ffurflen dewis rhieni. Gall rhieni ddewis unrhyw ysgol, ond bydd ysgolion yn blaenoriaethu ceisiadau trwy ddilyn y meini prawf (gormod o geisiadau) a nodir uchod. Dylid nodi fodd bynnag, y bydd cludiant yn cael ei ddarparu pan fo gofynion Polisi Cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu bodloni a bod y disgybl yn ceisio mynychu'r ysgol uwchradd gydnabyddedig sy'n gwasanaethu'r ardal. (O.N. Mae gan rieni sydd wedi enwi ysgol neilltuol o fewn y dyddiad cau flaenoriaeth gyfreithiol dros rai sydd heb wneud hynny.)
- c) Rhoddir ystyriaeth gan y Cyngor i ddewis y rhieni yn ôl yr egwyddorion a osodir uchod. Os yw'r Cyngor yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni, derbynnir y plentyn i'r ysgol honno.
- d) Os **nad yw'r Cyngor yn gallu** cytuno bydd rhieni yn cael eu hysbysu ar bapur ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus a gofynnir iddynt wneud cais am le mewn ysgol arall. Gall rhieni dderbyn y cynnig arall, neu drafod y sefyllfa gyda'r Cyngor o fewn 21 diwrnod, ac os ydynt yn parhau'n anfodlon, gallant roi rhybudd o apêl. Bydd rhagor o fanylion ar gael ar yr amser priodol.
- e) Rhaid i'r apêl (a anfonir at Bennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) fod yn ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau am yr apêl. Cychwynnir trefn apêl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 gan yr Awdurdod. Rhoddir cyfle i'r rhiant, ynghyd â chyfaill os yw'n dymuno, ddod gerbron y Panel Apêl annibynnol. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.

Addysg wedi oed ysgol statudol

- a) Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu ysgol uwchradd. Fodd bynnag, bydd ceisiadau gan ddisgyblion o ysgolion eraill yn cael eu hystyried hefyd, gan ddibynnu os bydd lle ar gael. Mae hawl gan rieni i apelio os gwrthodir lle i'w plentyn.
- b) O dan Adran 52(3) Deddf Addysg 1997, gosodwyd oed gadael ysgol newydd. Y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fo'r disgybl yn cyrraedd 16 oed yw hwn.
- c) Hyd y dyddiad hwnnw:
 - Rhaid i rieni a gwarcheidwaid sicrhau bod eu plant yn cymryd rhan mewn addysg yn yr ysgol neu arall;
 - Rhaid i Gynghorau Lleol sicrhau darpariaeth o addysg briodol;
 - Ni all cyflogwyr gyflogi plant yn amser llawn;
 - Ni chaiff darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant amser llawn a noddir gan y Llywodraeth.

Newid Ysgol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy ar adegau gwahanol i'r cyfnod arferol

- a) Dylid cysylltu â Phennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) cyn gynted ag y bo modd mewn achosion arbennig, ble'r ystyrir bod derbyn cynnar neu hwyr i addysg uwchradd yn ddoeth gan y rhieni a'r ysgol gynradd.
- b) Rhaid i rieni sy'n dymuno newid o un ysgol i un arall ar adeg wahanol i'r cyffredin drafod y mater yn gyntaf gyda'r ddau bennaeth. Fe all y penaethiaid ymgynghori gyda swyddogion Gwasanaethau Addysg CBS Conwy. Bydd y pennaeth a'r corff llywodraethol sy'n derbyn y disgybl yn trefnu i dderbyn yn unol â pholisi derbyniadau'r Awdurdod Derbyn. Fel arfer, ni all newidiadau gael eu cyflawni ond ar ddechrau tymor ysgol, ond fe all newidiadau sy'n codi o amgylchiadau arbennig ddod i rym yn ystod cwrs tymor ysgol. Cynghorir rhieni yn gryf, i beidio â throsglwyddo disgyblion yn ystod blwyddyn ysgol rhag amharu ar gwrs addysg eu plant.

Ysgolion Annibynnol

Polisi'r Cyngor yw rhoi plant o oed uwchradd mewn ysgolion annibynnol addas pan fo'r amgylchiadau'n rhai anghyffredin. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau o dan yr amgylchiadau canlynol:

- a) Pan fo amgylchiadau'r cartref yn ddifrifol niweidiol i ddatblygiad normal y plentyn;
- b) Pan na fo anghenion arbennig y plentyn sydd angen rhaglen arbennig ar gael o fewn ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, nac ysgolion Cynghorau cyfagos.

Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu pob dwy flynedd.

Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Polisi ar 12 Medi 2012

Llofnod
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad Adolygu: Medi 2014